21.01.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Holi Gwion Tegid am ei rôl yn Rownd a Rownd

Mae Gwion Tegid yn wyneb cyfarwydd iawn i wylwyr **Rownd a Rownd** erbyn hyn. Fe sy'n chwarae rhan Barry Hardy, cymeriad sydd yn adnabyddus am greu helynt yng Nglanrafon, pentref dychmygol yr opera sebon poblogaidd.

Ac mae'n wir i ddweud fod Barry'n wynebu amser digon cythryblus ers y Nadolig.

Yma, mae'r actor Gwion Tegid yn sgwrsio am ei gymeriad a'r profiad o ffilmio **Rownd a Rownd**.

**Beth sydd wedi bod yn digwydd i Barry yn ddiweddar?**

Ma' Barry newydd golli bob dim! Mi oedd o mewn perthynas hir dymor efo Carys ac yn mwynhau treulio amser efo'i fab, Tom. Mi oedd busnes i weld yn mynd yn dda wrth i Jason ei frawd edrych ar ôl y lle pizza a oedd yn caniatau amser sbâr i Barry ehangu ei bortffolio.

Mi oedd o isio prynu Copa, ond gyda'i elyn pennaf, Wyn, yn berchen ar y dafarn – doedd hynny ddim yn edrych yn debygol o ddigwydd! Mi ddaru Barry achub Aled o grafangau criw perryg Lerpwl, oedd yn golygu bod Aled mewn dyled iddo. Mi ddefnyddiodd o Aled i dwyllo Wyn gan brynu'r dafarn ar ei ran.

Yn anffodus, chwalodd perthynas Barry a Carys wrth i Aled ddangos iddi ei bod hi'n byw efo dyn perryg – mi redodd Carys i ffwrdd tra'n feichiog gyda babi Aled a mynd a Tom gyda nhw. I wneud pethau'n waeth, mi gipiodd Aled y pres parod chwe ffigwr gan Barry a chafodd Wyn drawiad cyn arwyddo'r contract i gadarnhau gwerthiant Copa.

Yn fyr – ma' Barry di colli'i gariad, plentyn, pres a Copa!

**Sut gymeriad ydi o ar hyn o bryd?**

Mae o'n beryg ar y funud 'swn i'n deud. Mae o wedi'i frifo, ond achos bod o wedi'i fagu'n galed, mae'r boen yn amlygu mewn tymer ddrwg ac ymddygiad ymosodol. Tydi o'n malio dim am neb – mae o'n coelio bod ei fam a'i frawd hyd yn oed wedi'i fradychu.

**Wyt ti'n mwynhau actio hyn?**

Yndw! Dim ots sut mae golygfa wedi cael ei ysgrifennu i berson blin - ma' 'na gymaint o opsiynau am sut i'w berfformio. Wrth gwrs bod gweiddi a malu pethau'n hwyl i'w wneud ac yn edrych yn frawychus ar y sgrîn, ond i fi, mae gwybod fod cymeriad yn wallgo' ond yn llwyddo i gadw'n cŵl, sgwrsio'n dawel a gallu dewis y geiriau iawn i fod yn fygythiol yn gymaint fwy effeithiol.

Mae’r ddeufis dair ddiwetha’ o ffilmio wedi bod yn *rewarding*, dwi wedi bod wrth fy modd yn trafod o olygfa i olygfa yn sicrhau bod y cresendo yn glanio ar uchafbwyntiau’r stori.

**Sut brofiad yw ffilmio efo cyfyngiadau Covid?**

Ar ôl chwe mis o beidio ffilmio a byw efo’r cyfyngiadau a chanllawiau newydd mi oedd cadw pellter o ddwy fedr, gwisgo masgiau a golchi dwylo’n amlach yn eitha’ normal – ond mi oedd gwneud hynny a phethau newydd fel gwneud colur dy hun, systemau unffordd, cael dy dymheredd di wedi’i checio yn estron mewn gweithle dwi ‘di arfer bod ynddi ers dros bymtheg mlynedd. Mae o’n rhyfeddol pa mor gyflym ti’n arfer efo’r system newydd.

Yn dweud hynny, mi ydw i mewn sefyllfa ffodus iawn, ac yn ddiolchgar a lwcus i gael cario ‘mlaen i weithio yn ystod y pandemig. Mai’n adeg ddychrynllyd i bawb sydd yn gweithio yn y celfyddydau ac mae’n bwysig iawn i ni gyd gefnogi rwan mwy nag erioed.

**Rownd a Rownd**
**Nos Fawrth a Nos Iau, 8.25**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo Media ar gyfer S4C**

21.01.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Chatting with Gwion Tegid about his role in Rownd a Rownd

Gwion Tegid is a familiar face to viewers of **Rownd a Rownd**. He plays the role of Barry Hardy, a character known for causing trouble in Glanrafon, the imaginary village of the popular soap opera.

And it's true to say that Barry is facing a turbulent time since Christmas.

Here, actor Gwion Tegid talks about his character and the experience of filming **Rownd a Rownd**.

**What's been happening to Barry lately?**

Barry has just lost everything! He was in a long-term relationship with Carys and enjoyed spending time with his son, Tom. Business seemed to be going well as his brother Jason looked after the pizza place, giving Barry some spare time to expand his portfolio.

He wanted to buy Copa, but with his main enemy, Wyn, owning the pub - that didn't look likely to happen! Barry rescued Aled from the clutches of a dangerous Liverpool crew, which meant that Aled was in debt to him. He used Aled to deceive Wyn and bought the pub on his behalf.

Unfortunately, Barry and Carys's relationship broke down as Aled revealed to her that she was living with a dangerous man - Carys ran away while pregnant with Aled's baby and took Tom with them. To make matters worse, Aled grabbed Barry's six-figure cash and Wyn had a heart attack before signing the contract to confirm Copa's sale.

In short - Barry has lost his girlfriend, child, money and Copa!

**What is he like at the moment?**

I'd say he's dangerous at the moment. He's hurt, but because he has been raised hard, the pain manifests in bad temper and aggression. He doesn't care about anyone - he even thinks that his mother and brother have betrayed him.

**Do you enjoy acting this?**

Yes! It doesn't matter how a scene is written for an angry person - there are so many options how to perform it. Of course, shouting and smashing things is fun to do and looks scary on screen, but for me, knowing that a character is out of control but manages to stay cool, talk quietly and is able to choose the right words to be threatening is so much more effective.

The last two months of filming have been rewarding, I've loved discussing from scene to scene ensuring that the crescendo lands on the heights of the story.

**What is it like to film with Covid limitations?**

After six months of not filming and living with the new guidelines and restrictions, keeping a distance of two meters, wearing masks and washing hands more often was quite normal - but doing that and new things was like doing your own make-up, one-way systems, having your temperature checked was quite alien in a workplace I've been in for over 15 years. It's amazing how quickly you get used to the new system.

That said, I am in a very fortunate position, and grateful and lucky to be able to carry on working during the pandemic. It is a scary time for everyone working in the arts and it is very important that we all support now more than ever.

**Rownd a Rownd**
**Tuesday and Thursday, 8.25pm**
**Welsh and English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Rondo production for S4C**